

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Ionawr 27^{ain}, 2021 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	R. A. Davies	Mrs S.E. Thomas	P.H. Roberts
	D. Nicholas	I. Rh. Llewelyn	Mrs Ll. Hindley
	Mrs K.D. L. Davies	Mrs Ll. Latham	Mrs A. Evans
	Mrs C. Thomas	D. Hopkins	E. W. Nicholas
	C. J Harris	Mrs J. E Collins	B. Rees

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	W. D. Evans	N. Evans
------------	-------------	----------

816.

DATGANIADAU O FUDDIANT

Roedd y Cynghorydd P. H Roberts wedi datgan buddiant yng Nghofnod 823 gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Sirol y Blaenau.

Roedd y Cynghorydd R. A Davies wedi datgan buddiant yng Nghofnod 823 gan ei fod yn Is-Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Sirol Llandybïe.

Roedd y Cynghorwyr D. Nicholas a D. Hopkins wedi datgan buddiant yng Nghofnod 823 gan eu bod yn Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Sirol Llandybïe.

817.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Ragfyr 2^{il}, 2020.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ragfyr 2^{il}, 2020.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd yna unrhyw fater i'w godi; nid oedd, felly **penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir.

Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgor.

818.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

GOHEBIAETH

819.

Adroddiadau'r Heddlu

Adroddiadau trosedd ar gyfer mis Rhagfyr 2020:

Llandybïe (17)

Difrod Troseddol i Gerbyd 2
Ymosod 2
Lladrad 1
Cyfathrebu maleisus 1
Troseddau yn ymwneud â chyffuriau 1
Aflonyddu 1
Dwyn o Gerbyd 6
Stelcian 1
Arall 2

Saron (gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc) (19)

Difrod Troseddol 3
Ymosod 3
Cyfathrebu maleisus 1
Troseddau yn ymwneud â chyffuriau 1
Aflonyddu 4
Mynd â cherbyd heb ganiatâd 1
Stelcian 2
Ymosod ar yr Heddlu 2
Arall 2

Penygroes (9)

Dirfod Troseddol (Cerbyd) 1
Ymosod 2
Cyfathrebu maleisus 1
Aflonyddu 1
Blacmel 1
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus 1
Arall 2

820.

Derbyniwyd yr eitemau canlynol o ohebiaeth, ac fe'u hanfonwyd at yr Aelodau cyn y cyfarfod:

- a) Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys – blaenoriaethau plismona ac arolwg cyllido.
- b) Eich tref, eich dyfodol – arolwg oddiwrth Un Llais Cymru
- c) Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Rhydaman – cynhelir ymgynghoriad o 12/1/21 hyd at 26/2/21.

Penderfynwyd y dylid nodi'r ohebiaeth.

821.

Cronfa Gymunedol Leol y Co-op

Yn ystod Chwefror 2021, ac i helpu dathlu busnesau lleol ar draws Cymru, mae'r Co-op yn dosbarthu bocsys o gynnyrch lleol. Mae'r bocsys bwyd ar gael ar draws Cymru ac mae'r Co-op wedi cynnig 25 o'r bocsys hyn, i'w dosbarthu yn ardal y Cyngor.

Penderfynwyd bod y parseli bwyd yn cael eu rhoi i fanc bwyd Rhydaman.

822.

Goleuo ym Mharc Penybanc

Roedd llythyr wedi'i dderbyn oddiwrth breswilydd yn Nhrefriw, Penybanc, yn gofyn i'r Cyngor ystyried goleuo'r parc newydd a agorwyd yn ddiweddar. Roedd y parc wedi derbyn croeso mawr yn lleol ond, oherwydd y nosweithiau tywyll nid oedd y plant lleol yn gallu ei ddefnyddio. Nid oes unrhyw oleuadau yn unrhyw un o'r unarddeg maes chwarae sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor.

Penderfynwyd i beidio â gosod goleuadau yn unrhyw un o'r meysydd chware i blant.

823.

Cynnig i adolygu addysg ysgol gynradd yn ysgolion cynradd Llandybïe a'r Blaenau

Ar Ionawr 11^{eg} 2021, roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi lansio ymgynghoriad i adolygu addysg ysgol gynradd yn Llandybïe a'r Blaenau. Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar Chwefror 21^{ain}, 2021.

Roedd hysbysebion i hysbysebu'r preswylwyr lleol wedi cael eu gosod ar hysbysfyrddau'r Cyngor yn Llandybïe, y Blaenau a Chaerbryn, ac roedd dolen wedi'i osod ar wefan y Cyngor.

Roedd y Cynghorydd P. H Roberts, cynrychiolydd y Cyngor Cymuned a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Sirol y Blaenau, wedi hysbysu'r Aelodau bod y corff llywodraethu wedi cynnal trafodaethau manwl gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynghlyn â dyfodol yr ysgol, gan gynnwys y gostyngiad yn y nifer o blant ar y gofrestr, a'r diffyg ariannol. Yn groes i'r graen, roedd wedi cytuno taw'r cynnig cyfredol yw'r canlyniad gorau i'r ysgol ac y byddai cydweithio yn agos gyda'r llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Sirol Llandybïe yn golygu bod y plant yn gallu trosglwyddo yno yn ddi-ffwdan. Roedd yn poeni bod yr ymgynghoriad wedi bod, o reidrwydd, yn un rithiol ac, yn ddelfrydol, byddai'n well ganddo fod wedi gweld oediad, fel bod y gymuned wedi gallu cael y cyfle i gyfarfod i drafod yr opsiynau a oedd ar gael.

Hysbyswyd yr Aelodau bod sesiynau 'galw heibio' a drefnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin wedi'u cynnal, a bod rhai o'r rhieni, a oedd wedi dewis anfon eu plant i dderbyn eu haddysg mewn ysgol fechan, wedi mynegi eu consyrn bod rhaid i'r plant symud i sefydliad mwy o faint. Yn ychwanegol, codwyd pryderon ynghylch colli ardal hamdden yn Llandybïe, a bod y cyfathrebu gyda'r preswylwyr lleol wedi bod yn wael. Roedd rhieni plant y ddwy ysgol wedi'u hysbysu o'r cynigion.

Anogwyd yr Aelodau i bwysleisio y bydd gan yr ysgol newydd gyfleusterau cymunedol ardderchog, ac fe'u hatgoffwyd bod uno dwy ysgol yn Nyffryn Aman i ffurfio Ysgol y Bedol ychydig flynyddoedd yn ôl wedi bod yn dra llwyddiannus yn yr ardal honno.

824.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

i) Llwybr Troed rhif 51/120 – ymestyn y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi hysbysu'r Clerc ei fod yn bwriadu gwneud cais i Lywodraeth Cymru am estyniad i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig sydd mewn grym ar y bont yn Heol y Blaenau, Llandybïe. Roedd y Gorchymyn eisoes wedi bod yn ei le am dros flwyddyn, ac roedd y Clerc wedi ymateb i'r Cyngor Sir i fynegi ei bryder ynghylch yr amser bod y llwybr troed hwn wedi bod ar gau, gan ei fod yn boblogaidd iawn gan gerddwyr. Roedd cynllun y bont wedi golygu bod rhaid i'r adran beirianeg bennu manylion yr adeiladwaith ar gyfer yr opsiynau amgen ac, erbyn hyn, roedd dyfynbrisiau wedi'u derbyn. Nawr fydd perchenog y tir a'r tîm peirianyddol yn trafod yr opsiynau.

ii) Llwybr troed rhif 51/71 ym Mlaennantgwynne, Pentregwenlais – derbyniwyd cwyn bod perchenog y tir wedi cloi gât ar y llwybr troed hwn, gan rhwystro cerddwyr rhag defnyddio'r llwybr. Roedd y Cyngor Sir wedi cofnodi'r mater a byddant yn mynd i'r afael â'r broblem.

iii) Llwybr troed rhif 51/65 yn Pentregwenlais – derbyniwyd cwyn bod piben ddŵr yn arllwys ddŵr ar y llwybr, ac yn ei wneud yn fwdlyd a gwlyb iawn. Roedd y Cyngor Sir wedi cofnodi'r mater a byddant yn mynd i'r afael â'r broblem.

iv) Roedd y Clerc wedi cysylltu â thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir i'w hysbysu bod angen gwaith cynnal a chadw ar 5 pont droed – dwy ym Mhontaman a thair yn Llandybïe..

v) Llwybr troed rhif 51/75 ym Monllwyn – roedd angen tocio perth a oedd wedi gordyfu ar hyd y llwybr hwn. Roedd R Gleaves o Fonllwyn wedi gwneud y gwaith yn foddhaol am bris o £70 a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu. **Penderfynwyd** cymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliad.

vi) Roedd llwybr a ddynodir fel 'llwybr arall gyda mynediad cyhoeddus' o Heol y Brenin i Heol Glynhir wedi'i gyfeirio at dîm Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin gan fod y Clerc wedi derbyn cwynion bod wyneb y llwybr, mewn mannau, yn wlyb iawn, ac yn ansefydlog.

vii) Roedd preswylwyr lleol wedi dweud wrth y Clerc bod angen amnewid llawer o gamfeydd ar hyd y llwybrau troed lleol, a bod y camfeydd hyn yn beryglus iawn i'r cyhoedd. Gyda chydysyniad y Cadeirydd, roedd y Clerc wedi gofyn i dîm Hawliau Tramwy Cyngor Sir Caerfyrddin i gyflenwi 8 cit camfa, am bris o £25 yr un, a bydd y Clerc yn trefnu gyda chontractwyr lleol neu berchnogion tir i amnewid y camfeydd sydd wedi torri.

Penderfynwyd, yn ôl-weithredol, i gymeradwyo'r archeb ac i dalu'r anfoneb pan y'i derbynnir hi.

b) Parciau

i) Roedd dogfen dyfynbris wedi'i chyhoeddi am y gwaith canlynol yn yr unarddeg parc sydd, erbyn hyn, yn cael eu cynnal a chadw gan y Cyngor:-

Casglu Sbwriel/ Torri'r glaswellt / Clirio dail / Cynnal a chadw'r perthi / Cynnal a chadw'r cae pêl-droed / Gosod chwynladdwr

Cynigir y contract am gyfnod o 12 mis.

ii) Roedd dogfen ddyfynnu wedi'i chyhoeddi ar gyfer paratoi a chynnal a chadw Grîn Fowlio Llandybïe am gyfnod o 24 mis..

Gosodwyd hysbysiad dwyieithog ym mhapur newydd y South Wales Guardian ar 6^{ed} a'r 13^{eg} o Ionawr, 2021 am bris o £500 a TAW, yn daladwy i Newsquest Ltd.

Y dyddiad cau ar gyfer y ddau ddyfynbris yw Chwefror 5^{ed}, 2021, a phenderfynwyd bod yr holl ddyfynbrisiau yn cael eu hagor wedi'r dyddiad penodedig gan y Clerc, y Swyddog Gweinyddol a'r Cadeirydd, ac yn cael eu gwerthuso yn unol â chanllawiau'r dyfynbris. Bydd y cyflenwr a ffefrir yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod y Cyngor Llawn a gynhelir ar Chwefror 14^{eg}, 2021, ac yn cael gwybod wedi hynny.

iii) Roedd hen offer parc a meinciau a oedd wedi'u hamnewid dros y 3 blynedd diwethaf wedi cael eu storio yn lleol, ac roedd sguip wedi'i archebu i waredu'r cyfan. Derbyniwyd anfoneb am £210 a TAW oddiwrth M W Tench and Son Ltd a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, talwyd yr anfoneb.

iv) Prynwyd pump clo oddiwrth y Barnsley Lock and Safe Company Ltd am bris o £84.60, i'w defnyddio i gloi ardaloedd gemau'r parciau gan fod rhaid eu cloi i gydymffurfio â chyfyngiadau diweddaraf y llywodraeth. Yn ystod y cyfnodau clo blaenorol, nid oedd clymau cebl plastig wedi profi'n ddigon cadarn at y pwrpas. Roedd y cwmni wedi gofyn am dâl ar unwaith, ac roedd y Clerc wedi gwneud hyn a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, wedi derbyn ad-daliad o'i dreuliau.

c) Archwiliad Blynyddol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi cylch newydd blynyddol o archwilio Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Bydd Cyngor Cymuned Llandybïe yn cael ei archwilio fel a ganlyn:-

2020/2021 – Archwiliad rhyngweithredol llawn

2021/2022 – Archwiliad sylfaenol

2022-2023 – Archwiliad sylfaenol

Derbyniwyd anfoneb am £322 oddiwrth Archwilio Cymru am archwiliad 2019/2020.

ch) Arwyddion cydnabod cefnogaeth ariannol

Roedd 20 arwydd ychwanegol wedi'u harchebu am bris o £900 o gwmni'r Engraving Centre Ltd. Roedd yr anfoneb wedi'i derbyn a'i thalu. Roedd llythyr wedi'i anfon at dderbynwyr y grantiau blynyddol i ofyn iddynt arddangos yr arwydd mewn lle amlwg yn eu safleoedd.

d) Cloeon hysbysfyrddau'r Cyngor

Roedd mân waith cynnal a chadw wedi'i wneud i'r hysbysfyrddau a'r cloeon toredig ym Monllwyn a Chwmgwili gan P Bishop, am bris o £50.

dd) Pafiliwn Saron

Roedd angen galw ar wasanaeth plymwr brys i atgyweirio piben a oedd wedi byrstio, er mwyn atal y gollyngiad. Roedd cwmni Next- Gen Plumbing and Heating wedi cwblhau'r gwaith yn foddhaol am bris o £110

e) Lletya'r Wefan

Derbyniwyd anfoneb am £250 a TAW oddiwrth ICT Vision Ltd am letya a chefnogi gwefan y Cyngor yn flynyddol.

f) Prydles y Swyddfa a'r Siambr

Erbyn hyn roedd y brydles ddrafft derfynol wedi'i derbyn oddiwrth Fwrdd Cyllid Esgobaethol TyDdewi, ac wedi'i harchwilio gan gyfreithwyr CCW Law Solicitors ar ran y Cyngor. Roedd y ddogfen wedi'i llofnodi ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd W D Evans.

Derbyniwyd anfoneb am £660 a TAW oddiwrth gwmni CCW Solicitors, a **phenderfynwyd** ei thalu a £650 am y brydles i 31/5/21.

Penderfynwyd cymeradwyo, yn ôl-weithredol, yr holl daliadau a wnaethpwyd gyda chydsyniad y Cadeirydd.

ff) Pafin yn Heol Hendre, Capel Hendre

Roedd gosod pafin newydd ar hyd Heol Hendre yng Ngapel Hendre wedi'i drafod yn y cyfarfod Datblygu Cymunedol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, 2020. Cytunwyd bod angen gwybodaeth bellach oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin cyn ystyried unrhyw brosiect. Erbyn hyn maen nhw wedi hysbysu'r Cynghorydd Mrs K.D.L.Davies eu bod yn bwriadu cyflwyno'r cais am gyllid drwy'r cynllun Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned. Nid yw'r prosiect wedi'i gostio hyd yn hyn.

Penderfynwyd cefnogi'r prosiect 'mewn egwyddor', a bod 'na bosibilrwydd y bydd y Cyngor yn ei gefnogi yn ariannol pe byddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen.

g) Clwb Rygbi Penygroes – ffens

Penderfynwyd, yn flaenorol, bod ffens newydd yn cael ei hystyried, ond bod uchder y ffens yn cael ei lleihau i un metr, bod cyfrifon masnachu cyfredol yn cael eu cyflwyno a bod y clwb yn cadarnhau ei fod wedi gwneud ceisiadau i ffynonellau cyllido eraill am arian a allai helpu ariannu'r prosiect.

Roedd Clwb Rygbi Penygroes wedi hysbysu'r Clerc na fyddai ffens metr o uchder yn datrys y broblem o gŵn yn baeddu'r caeau chwarae, ac maen nhw wedi gofyn os oes modd gosod ffens 1.8 m o uchder ar y bancyn, ar uchder addas, fel na fyddai'n ymddangos i'r cyhoedd ei fod yn uwch nag y byddai ffens metr o uchder yn gwneud, o ran rhwystro unrhyw olygfeydd. Fel arall, byddai modd gosod y ffens ar waelod y bancyn a berchnogir gan Glwb Rygbi Penygroes. Byddai'r ddau opsiwn yn ymestyn ffiniau presennol y parc, gyda mynediad i'r tiroedd drwy gatiâu.

Penderfynwyd bod y cynnig gwreiddiol o gefnogaeth yn dal ar gael, ac nad oedd yr opsiynau eraill yn dderbyniol i'r Cyngor.

825.

GILFACH IAGO

Roedd Celtic Energy wedi gwneud cynnig 'heb leihau effaith' i Gyngor Sir Caerfyrddin, cynnig sydd angen ei negodi ymhellach, gan nad yw'n dderbyniol i'r Cyngor Sir. Roedd y Cyngorydd Sir, D Thomas, wedi hysbysu'r Aelodau ei fod wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod gyda Ruth Mullen, Cyngor Sir Caerfyrddin, a bydd yn rhoi diweddariad i'r Clerc ynghylch yr *impasse* cyfredol.

Roedd y Cyngorydd Mrs C. Thomas wedi hysbysu'r Aelodau ei bod yn bryderus iawn ynghylch y llwybrau troed ar draws safle Gilfach Iago, a'i bod yn ymwybodol bod aelodau'r cyhoedd wedi cwympo oherwydd ansawdd gwael y llwybrau. Roedd llwybrau eraill yn rhannau eraill o'r safle hefyd mewn cyflwr gwael ac, mewn manau, yn peri perygl i'r cyhoedd.

Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i'w hysbysu o'r materion hyn.

826.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Derbyniwyd y biliau canlynol yn ystod mis Rhagfyr 2020 ac Ionawr 2021 a, gyda chydysniad y Cadeirydd, cafwyd eu talu:

5376	EDF	Pafiliwn Saron – Tachwedd 2020	£27.11
5377	EDF	Parc Capel Hendre –Tachwedd 2020	£10.93
5378	EDF	MUGA Llandybïe – Tachwedd 2020	£10.93

Cadeirydd

5379	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Tachwedd 2020	£23.32
5380	EDF	Sied Fowlio Llandybïe – Tachwedd 2020	£19.66
5381	Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol	Adnewyddu aelodaeth flynyddol	£262.00
5382	S Griffith	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, mis Rhagfyr 2020	£2296.23
5383	R Thomas	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, mis Rhagfyr 2020	£661.06
5384	Cyllid y Wlad	Rhagfyr 2020	£944.26
5385	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£110.75
5386	Dŵr Cymru	Pafiliwn Saron 20/5/20 – 30/11/20	£228.66
5387	The Engraving Centre Ltd	Placiau wal i dderbynwyr grant	£900.00
5388	S Griffith	Treuliau gan gynnwys band llydan, teithio, post a meddalwedd gwrthfeirysau	£490.91
5389	EDF	EDF – Parc Penygroes, Tachwedd 2020	£10.58
5390	Dynevor Tree Services	Clirio dail a dadflocio draenau ar Lwybr Troed rhif 51/105	£120.00
5391	Jeff's Tipper Hire	Agor a chau'r Cyfleusterau Cyhoeddus	£868.00
5392	Newsquest Media Group Ltd	Hysbysebion papur newydd am waith cynnal a chadw'r parciau a'r griniau bowlïo	£600.00
5393	hsl Compliance Ltd	Gwasanaeth hylendid dŵr – Rhagfyr 2020	£221.54
5394	M W Tench and Son Ltd	Llogi sgip	£252.00
5395	SSE Swalec	Trydan yn nghyfleusterau cyhoeddus Llandybïe 12/9/20 – 11/12/20	£46.62
5396	P Bishop	Cynnal a chadw yn y parciau a newid clo/cloeon yr hysbysfwrdd	£50.00
5397	S Griffith	Ad-dalu'r gost o brynu cloeon	£84.40
5398	Newhall Janitorial	Deunyddiau glanhau i'r cyfleusterau cyhoeddus	£196.96
5399	SSE Swalec	Trydan yn nghyfleusterau cyhoeddus Penygroes 11/9/20 – 17/12/20	£33.20
5400	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Rhagfyr 2020	£22.84
5401	EDF	MUGA Llandybïe – Rhagfyr 2020	£10.93
5402	EDF	Parc Capel Hendre – Rhagfyr 2020	£10.93

5403	EDF	Sied Fowlio Llandybïe – Rhagfyr 2020	£20.14
5404	EDF	Pafiliwn Saron – Rhagfyr 2020	£45.09
5408	R Gleaves	Torri perthi ar lwybr troed rhif 51/75 yn Aberlash, Bonllwyn	£70.00
5411	EDF	Parc Penygroes – Rhagfyr 2020	£10.76
5412	SSE Swalec	Y Swyddfa a'r Siambr 15/10/20-13/1 21	£42.91

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:-

5405	S Griffith	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, mis Ionawr 2021	£2296.43
5406	R Thomas	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, mis Ionawr 2021	£660.86
5407	Cyllid y Wlad	Rhagfyr 2020	£944.26
5409	Archwilio Cymru	Ffi archwilio allanol 2019/2020	£322.00
5410	Vision ICT Ltd	Lletya'r wefan a chefnogaeth, 3/21 hyd at 2/22	£300.00
5413	hsl Compliance Ltd	Gwasanaeth hylendid dŵr – Ionawr 2021	£221.54
5414	BT	Bil ffôn y Clerc – 15/1/21- 14/4/21	£121.90
5415	Jeff's Tipper Hire	Agor a chau'r cyfleusterau cyhoeddus	£868.00
5416	Next-Gen Plumbing and Heating Ltd	Atgyweirio, ar frys, piben ddŵr ym mhafiliwn Saron	£110.00
5417	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Ionawr 2021	£81.05
5418	EDF	MUGA Llandybïe – Ionawr 2021	£10.24
5419	EDF	Parc Capel Hendre – Ionawr 2021	£10.24
5420	EDF	Sied Fowlio Llandybïe – Ionawr 2021	£18.24
5421	EDF	Pafiliwn Saron – Ionawr 2021	£14.44
5422	Morgan and Morgan	Deunyddiau papur	£129.91
5423	Newhall Janitorial Ltd	Deunyddiau glanhau ar gyfer y cyfleusterau cyhoeddus	£299.80
5424	Cyfreithwyr CCW Law Solicitors	Ffioedd cyfreithiol am brydles newydd i'r Swyddfa a'r Siambr	£792.00

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau hyn, ynghyd â'r rhai a gytunwyd arnynt gan y Cadeirydd.

Cadeirydd

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol - Ebrill 1/4/20 i 31/12/20

2020/21 Amcangyfrif £	Gwariant gwirioneddol hyd yn hyn £	
180,000	180,000	Praesept
150	53	Llog: Lloyds
400	0	Llog: cyfrifon buddsoddi
		Hawliau Tramwy
3000	3,000	Cyhoeddus
	726	Grant cynnal a chadw
4700	0	Cytundebau llogi
<u>188,250</u>	<u>183,779</u>	
45,889	37,227	Staffio
17,650	9,675	Adeiladau
		Gwasanaethau
4,750	3,734	Swyddfa
3,100	562	Costau'r Aelodau
		Gwasanaethau a
10,000	4,060	Thanysgrifiadau
	5,920	Adran 137
}		Taliadau yn unol â phwerau eraill
	0	
18,000		Mannau agored
	1,150	cyhoeddus
	2,470	Neuaddau pentref
	2,900	Claddfeydd
}		Hawliau Tramwy – cynnal a chadw
	4,575	
10,000	0	Hawliau Tramwy – gwelliannau
		Torri glaswellt/ sbwriel/
28,000	1,425	cyfleusterau
		Atgyweirio ac amnewid yn y
50,000	56,787	parciau
}	0	Goleuo cyhoeddus - ynni
8,500	0	Goleuo cyhoeddus - gwelliant
28,000	11,887	Datblygu Cymunedol
		Cyfleusterau
13,000	5,688	Cyhoeddus
<u>236,889</u>	<u>148,058</u>	
		Balans am y flwyddyn
	35,721	(cyfnod)
	337,001	d/y
<u>0</u>	<u>372,720</u>	c/y

	Arian parod a
363,255	buddsoddiadau
9,465	Dyledwyr
0	Credydwyr
<u>372,720</u>	

Hefyd, cyflwynwyd y gyllideb, hyd at Dachwedd 30^{ain}, 2020, i'r Cynghorwyr. Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

(iii) Cadarnhau'r praesept ar gyfer 2021/2022

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ysgrifennau at y Clerc i ofyn am gadarnhad o braesept 2021/2022 ac i hysbysu'r Aelodau taw'r sylfaen drethi ar gyfer 2021/22 oedd £4395.03. Bydd y ffigwr hwn yn caniatáu i'r Cyngor fedru cyfnewid anghenion y praept i'r Dreth y Cyngor sydd i'w godi ar eiddo band D, a'r holl fandiau eraill.

Penderfynwyd cadarnhau i'r Cyngor Sir bod y praesept ar gyfer 2021/2022 wedi'i bennu yn y swm o £180.000

(iv) Cysoniad arian parod

Roedd y Cynghorydd W D Evans wedi cynnal cysoniad arian parod hyd at Ragfyr 31^{ain}, 2021. Nid oedd unrhyw faterion i'w nodi.

827.

Adroddiad ynghylch arian Adran 106

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi hysbysu'r Clerc o'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd:

Ward Llandybïe - £401

Ward Saron - £5,626

Ward Penygroes - £ 25,348

Roedd y Cynghorydd Sir, Dai Thomas o Benygroes, wedi hysbysu'r Aelodau ei fod wedi bod yn trafod gyda'r Clerc y posibilrwydd o osod eitem amnewid yn yr Uned Aml Chwarae i Blant Bach ym mharc Gorsddu. Roedd arolygwyr y parc wedi dweud, yn gyson, bod yno brennau pwr, bod ymylon yr wynebau yn codi ac yn achosi peryglon baglu, a bod yr wynebau, yn gyffredinol, wedi treulio.

Roedd y Clerc wedi trafod yr opsiynau posibl gyda thri chyflenwr, ac wedi derbyn dyfynbrisiau llafar o hyd at £13000 a TAW, ac roedd y Cynghorydd Thoams wedi cytuno i dalu'r cyfan gan ddefnyddio'r arian Adran 106.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Thomas am ei gefnogaeth.

Cadeirydd

828.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Dim i'w gofnodi.

829.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar **Chwefror 24^{ain}, 2021.**

830.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.55 yh.